**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 440**
**18 Mehefin, 2020 - Cyfarfod dros Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | | |
| | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) – eitemau 1-7 |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) – eitemau 5-8 |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) – eitem 1-5; 8-12 |
| **Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol Cysgodol:** | | |
| | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol:** | | |
| **Staff S4C:** | | |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Eilir Jones | (Pennaeth Ymchwil) – eitem 8 |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – eitemau 4-12 |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) – eitemau 4-12 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Allanol:** | Jeremy Evas | Isadran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru - eitem 2 |
| | Lewis Knight | Swyddfa Archwilio Genedlaethol – eitem 5 |
| | Saagar Patel | Swyddfa Archwilio Genedlaethol – eitem 5 |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Atgoffodd pawb i ddatgan eu diddordeb a bod y wybodaeth yn gyfredol. Datganodd RhW ei ddiddordeb yn Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cyflwyniad Jeremy Evas**

Cafwyd cyflwyniad gan Jeremy Evas o Lywodraeth Cymru ac amlinellodd y cynlluniau sydd ar waith i geisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Nododd fod angen ceisio newid ymddygiad, gan ddefnyddio llawer iawn o wahanol

dechnegau, er mwyn sicrhau fod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a theimlo'n gyfforddus yn ei defnyddio. Roedd pawb eisiau perthyn ac roedd emosiwn yn chwarae rhan bwysig.

**[Crynodeb:** Trafodwyd sut mae pobl yn canfod y Gymraeg o safbwynt brand; beth yw brand; y potensial sylweddol i dyfu'r teimlad o berthyn; a sut mae trafod y Gymraeg.

Roedd OD yn teimlo fod hwn yn gyflwyniad da iawn, a'i fod yn bwysig i ni o ran brand S4C. Hoffai pe bai modd i ni weithio'n agosach fel cyrff, gan dreialu rhai o'r awgrymiadau gyda'n cynulleidfaoedd. Cytunodd AR, gan nodi fod pethau syml y gallwn wneud gan gynnwys cyfathrebu clir a'r ffordd yr ydym yn ymateb i ymholiadau, gan gynnwys y Wifren. Nododd HHE pwysigrwydd datblygu partneriaethau a newid tôn y drafodaeth.]

Nododd RhW fod parodrwydd i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a bod angen sicrhau bod yr egwyddorion yng nghyflwyniad JE yn rhan o Strategaeth 22. Diolchodd iddo am ei gyflwyniad.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

**Covid**

Cafwyd diweddariad gan OE. Roedd galwadau gyda chwmnïau yn parhau yn ogystal â chynnal cyfarfod gyda'r sector. Roedd swyddogion yn edrych yn ofalus ar y gyllideb cynnwys ac yn paratoi i gynllunio ar gyfer mis Medi ymlaen. Roedd y Fforwm Drama wedi cyfarfod eto a thrafod materion megis yswiriant, teithio ac aros dros nos i ffilmio ayyb. Roedd swyddogion mewn cysylltiad agos gyda Llywodraeth Cymru a'r DCMS ar nifer o faterion. Roedd cyfarfodydd staff wythnosol yn parhau.

Roedd SL am ddiolch i'r swyddogion am gefnogi'r Urdd mewn perthynas â Steddfod T. Nododd hefyd fod adborth positif wedi dod o'r sector ynglŷn ag ymateb S4C i'r argyfwng.

**Ail-agor swyddfeydd**

Adroddwyd fod llawer o waith yn cael ei wneud yn y cefndir i geisio paratoi ar gyfer ail-agor swyddfeydd. Nododd EM fod cynllun wedi'i baratoi ar gyfer pob swyddfa o ran y rheol 2 fedr, a bod asesiadau risg gyda help ymgynghorydd arbenigol yn cael eu cynnal. Adroddwyd fod landlord Doc Fictoria eisoes gyda chynlluniau yn eu lle, a bod angen trafodaethau pellach gyda'r Egin. Mewn perthynas â swyddfeydd y BBC yn Sgwâr Canolog, byddai angen gweld faint o staff fydd yn cael mynd mewn gan fod rheolau mwy caeth gan y BBC.

Mewn perthynas ag elfennau staffio, byddai angen trefnu presenoldeb o ran timoedd o fewn y swyddfeydd, gyda phatrymau gwaith gwahanol, gan gynnig mwy o hyblygrwydd. Ni fyddai modd i bawb ddod mewn ar yr un pryd a byddai'n broses raddol wrth barhau i ddefnyddio'r dechnoleg oedd ar gael.

**TAW**

Nododd OE fod HMRC wedi bod mewn cysylltiad a SW ynglŷn a'r deddfwriaeth mewn perthynas a thaliadau TAW S4C.

**Cyflenwad Statudol y BBC**

Adroddwyd bod Ken MacQuarrie wedi ymateb i lythyr OE ar 15 Mehefin a bod EM wedi paratoi ymateb drafft i'r Bwrdd drafod.

**[Crynodeb:** Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i ail-ddrafftio'r llythyr at y BBC yng ngoleuni sylwadau Aelodau'r Bwrdd.]

4. **Cyflwyniad Cynnwys**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd AR ddiweddariad ar Gynnwys S4C. Trafodwyd goblygiadau ariannol yr argyfwng.]

Cafwyd cyfarfod arall gyda'r sector gyda llawer o syniadau wedi dod mewn i'r Comisiynwyr o ganlyniad. Nodwyd rhai o'r cyfresi oedd ar y gweill. Gobeithir y bydd modd ail-ddechrau saethu Pobol y Cwm cyn bo hir ond byddai llai o benodau rhwng Medi a Rhagfyr 2020. Gobeithir hefyd ail ddechrau ffilmio Un Bore Mercher ond roedd drama yn genre anodd o dan y cyfyngiadau. Roedd y tîm hefyd wedi galw ar gynhyrchwyr i gynnig dramâu hanner awr.

Nodwyd bod Fforwm Drama S4C wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd gyda 30-40 o'r sector yn ymuno. Nodwyd bod yswirio cynyrchiadau yn broblem enfawr oherwydd COVID-19. Roedd PACT ac eraill yn lobio DCMS a'r Trysorlys i greu cronfa byddai'n tanysgrifennu cynyrchiadau ac roedd S4C wedi ysgrifennu at y DCMS.

Bu trafodaeth am yr heriau y mae cwmnïau yn ei wynebu wrth geisio cael caniatâd Cynghorau Lleol i barhau gyda ffilmio mewn gwahanol leoliadau dros Gymru. Roedd swyddogion yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ac eraill. Cynigiodd HHE codi'r mater o fewn y WLGA.

Mewn perthynas â rhaglenni chwaraeon a gollwyd, nodwyd fod 170 awr wedi'u colli, ond fod 63 awr wedi'u lenwi gyda chymysgedd o raglenni archif a pheth cynnwys newydd. Roedd rhaglen Superugby Seland Newydd wedi dechrau a byddai modd adfer peth o'r oriau gyda'r Tour de France a'r Giro maes o law. Roedd trafodaethau'n parhau o ran pryd fydd tymor y Pro14 yn ail-gychwyn.

5. **Adroddiad yr Archwilwyr Allanol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**

Diolchodd Lewis Knight am y cyfle i gyflwyno adroddiad archwilio allanol i'r Bwrdd. Diolchodd hefyd i SW a'r tîm am eu cefnogaeth. Yn ogystal â'r sialens o gynnal archwiliad am y tro cyntaf i S4C, nodwyd yr oeddynt yn gweithio o bell oherwydd y pandemig. Roedd swyddogion yr NAO wedi ymgyfarwyddo gyda gwaith S4C dros y cyfnod, a nodwyd fod yr adroddiad risg wedi newid wrth iddynt ddod i adnabod gweithdrefnau S4C yn well.

**[Crynodeb:** Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith oedd eisoes wedi'i gwblhau. Er nad oedd COVID-19 yn cael ei drin fel risg arbennig, roedd ystyriaeth o effaith y pandemig yn chwarae rhan ar draws pob elfen o'r gwaith.

Ardal arall oedd angen sylw oedd y ffaith fod nifer o gynyrchiadau wedi'u gohirio. Nodwyd mai gohirio yn hytrach na chanslo oedd y sylwad. Amlinellodd Saagar Patel y gwaith oedd yn weddill, gyda'r ffocws ar wahanol risgiau oedd angen sylw.]

Nododd LK, SP a SW fod peth gwaith i'w wneud eto cyn cadarnhau'r adroddiad terfynol ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol.

Diolchodd RhW i'r NAO gan gydnabod fod archwiliad blwyddyn gyntaf wastad yn anodd. Nododd LK fod gwersi wedi'u dysgu a bydd modd symud ymlaen at yr archwiliad nesaf gyda hyder.

6. **Cymeradwyo Datganiad Ariannol 2019/20**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd SW y Datganiad Ariannol. Roedd wedi bod yn gyfnod heriol ond roedd y gwaith bron wedi gorffen. Nodwyd y cynnydd yn yr oriau cyfleu oedd yn deillio o'r flwyddyn naid.]

Diolchodd y Bwrdd i SW a'r tîm cyllid am yr holl waith caled. Roedd sicrhau archwiliad glân o'r NAO yn dipyn o gamp.

7. **Adroddiad Blynyddol - Naratif Llywodraethiant**

Cyflwynwyd drafft yr adran Llywodraethiant ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Nododd OLl y prif bethau oedd wedi newid ers y drafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio gan gynnwys sut oedd S4C wedi ymateb i COVID-19 gyda'r Noson Gwylwyr dros Facebook Live, â'r ffaith bod trefniadau parhad busnes wedi cael ei phrofi'n llawn yn ystod mis Mawrth 2020 mewn ymateb i'r argyfwng.

**[Crynodeb:** Trafodwyd rhai elfennau eraill o'r naratif, gan gynnwys yr adroddiad cyflog ar sail rhyw. Roedd rhai newidiadau ers y llynedd yn bennaf gan fod rhai swyddogion benywaidd wedi gadael yn ystod y flwyddyn. Roedd CW wedi paratoi esboniad fel rhan o'r adroddiad.

Nodwyd, gan fod cyn lleied o staff gan S4C, fod newidiadau bach yn gallu cael effaith fawr ar ein ffigyrau ni. Serch hynny, roedd diffyg amrywiaeth y tu fewn i S4C a thrafodwyd y posibilrwydd o greu Swyddog Amrywiaeth.]

8. **Diweddariad ar Berfformiad**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EJ adroddiad ar berfformiad y gwasanaeth ac ar y newid yng nghynulleidfa S4C yn ystod y cyfnod clo, fesul slot a diwrnod. Nodwyd fod y gynulleidfa wedi newid yn ystod y dydd a'r oriau brig, gyda chynnydd ar fore Sul gyda'r oedfa.

Roedd cynnydd mawr wedi digwydd o ran gwylio cynnwys tu allan i deledu. Yn ôl BARB, roedd pobl nawr yn gwylio awr a hanner o gynnwys y tu allan i'r sianeli darlledu.

Nododd HHE pa mor ddiddorol oedd yr adroddiad. Fodd bynnag, roedd ganddo beth bryder ynglŷn â chyrhaeddiad eleni hyd yn hyn. Tanlinellodd EJ fod effaith colli chwaraeon yn bennaf ar gyrhaeddiad.

Roedd AR o'r farn ei bod yn anodd mesur gwir berfformiad eleni. Byddai angen o bosib canolbwyntio ar berfformiad yn yr oriau brig ac ar yr oriau gwylio

amgen. Roedd miloedd yr oriau brig i fyny gan apelio o bosib yn fwy at y gynulleidfa graidd. Roedd SL o’r farn fod y gynulleidfa graidd yn bwysig, ond bod angen ceisio denu cynulleidfa newydd yn ogystal.]

9. **Cofnodion Cyfarfod 21ain Mai 2020.**

Cyflwynwyd y cofnodion o gyfarfod rhif 439 gynhaliwyd ar y 21ain o Fai. Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

10. **Materion yn Codi**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o’r cofnodion.

11. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

12. **Unrhyw Fater Arall**

Holwyd os oedd angen i’r Bwrdd gyfarfod yn amlach mewn perthynas â COVID-19. Nododd OE fod y trefniadau presennol yn gweithio a’r peth pwysig oedd bod y Bwrdd yn hapus gydag ymateb y swyddogion. Gellir wastad cwrdd ar frys os oedd angen trafod rhywbeth penodol.